Department for Work & Pensions

# Lwfans Rhiant Gweddw

## Mae gennym lawer o ffyrdd y gallwn gyfathrebu â chi

Os hoffech braille, Iaith Arwyddion Prydain, dolen glyw, cyfieithiadau, print bras, sain neu rywbeth arall, ffoniwch ni ar **0800 328 1744** neu ffôn testun **0800 169 0314** a dywedwch wrthym pa un sydd ei angen arnoch.

Mae galwadau i rifau 0800 am ddim o ffonau symudol a llinellau daear.

## Trin pobl yn deg

Rydym wedi ymrwymo i Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ac i drin pobl yn deg. I ddarganfod mwy am y gyfraith hon, chwiliwch am 'Cydraddoldeb' yn **www.gov.uk**

## Eich cais am Lwfans Rhiant Gweddw

Atebwch bob cwestiwn ar y ffurflen hon sy'n berthnasol i chi neu'ch diweddar bartner. Dychwelwch y ffurflen cyn gynted â phosibl neu efallai y bydd oedi gyda'ch taliadau budd-dal.

## Gwybodaeth bwysig

Mae Lwfans Rhiant Gweddw (WPA) yn incwm trethadwy, felly efallai y bydd angen i chi dalu treth ar unrhyw daliadau ac ôl-daliadau WPA a gewch. Os ydych yn Talu Wrth Ennill (PAYE), nid oes angen i chi wneud unrhyw beth, byddwn yn dweud wrth CThEF faint a gewch, gan gynnwys unrhyw ôl-daliadau.

Os ydych yn gwsmer Hunanasesu (SA), dylech naill ai ddatgan taliadau WPA ac ôl-daliadau WPA ar eich Ffurflenni Treth Hunanasesu (SATRs), ar gyfer pob blwyddyn dreth, neu ysgrifennu at CThEF i gynnwys yr ôl-daliadau WPA ar eich Ffurflen Dreth Hunanasesiad. SATRs blaenorol. I gael rhagor o wybodaeth ewch i **www.gov.uk/self-assessment-tax-returns/corrections**

## Chi

Cwblhewch y ffurflen hon gydag INC DU ac mewn PRIFLYTHRENNAU.

**01 Eich teitl**

Er enghraifft, Mr, Mrs, Miss, Ms neu arall.

**02 Cyfenw neu enw teuluol yn llawn**

**03 Pob enw arall yn llawn**

**04 Pob cyfenw arall neu enw teuluol rydych wedi defnyddio neu wedi cael eu hadnabod ganddynt**

Dylech gynnwys yr enw cyn priodi, pob enw priod neu bartneriaeth sifil flaenorol a phob newid i enw teuluol. Os oes angen mwy o le arnoch, dywedwch wrthym yng Nghwestiwn 36.

**05 Eich rhif Yswiriant Gwladol (YG)**

Gallwch gael hwn o'ch cerdyn rhif Yswiriant Gwladol, llythyrau am fudd-daliadau, slipiau cyflog neu ffurflen P60.

**06 Eich dyddiad geni**

DD/MM/BBBB

/ /

**07 Eich cyfeiriad yn llawn**

Ble rydych yn byw fel arfer

Cod post

**08 Rhif ffôn y gallwn gysylltu â chi arno**

**09 Beth oedd dyddiad marwolaeth eich diweddar bartner?**

DD/MM/BBBB

/ /

**10 Oeddech chi'n byw yn yr un cyfeiriad â'ch diweddar bartner, fel petaech chi'n briod â nhw, pan fuont farw?**

☐ Na

☐ Oeddwn

Beth oedd eich cyfeiriad pan oeddech yn byw gyda'ch gilydd?

Cod post

**11 Pa mor hir oeddech chi wedi byw gyda'ch gilydd yn yr un cyfeiriad pan fu farw eich diweddar bartner?**

**12** **A oedd unrhyw oedolyn arall yn byw yn yr un cyfeiriad â'ch diweddar bartner pan fuont farw?**

☐ Na

☐ Oedd

Beth oedd eu perthynas â chi a'ch diweddar bartner?

[ ]

Beth oedd eu henw?

[ ]

Beth oedd eu dyddiad geni?
DD/MM/BBBB

[ / / ]

## Eich diweddar bartner

**13** **Teitl eich diweddar bartner**
Er enghraifft, Mr, Mrs, Miss, Ms neu arall

[ ]

**14** **Cyfenw neu enw teuluol eich diweddar bartner yn llawn**

[ ]

**15** **Enwau eraill eich diweddar bartner yn llawn**

[ ]

**16** **Cyfenwau eraill neu enwau teuluol eraill y cafodd eich diweddar bartner eu hadnabod ganddynt**

[ ]

**17** **Rhif Yswiriant Gwladol eich diweddar bartner, os yw'n hysbys**

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | |

**18** **Dyddiad geni eich diweddar bartner**
DD/MM/BBBB

[ / / ]

**19** **Oedd eich diwedddar bartner yn cael Pensiwn y Wladwriaeth neu unrhyw fudd-daliadau eraill?**

☐ Na

☐ Oedd

Dywedwch wrthym pa fudd-dal?

[ ]

**20** **A oedd eich diweddar bartner yn aelod o Luoedd Arfog EF pan fuont farw?**

☐ Na

☐ Oedd

**21** **A oedd eich diweddar bartner yn cael Pensiwn Rhyfel pan fu farw?**

☐ Na

☐ Oedd

Dywedwch wrthym beth yw eu rhif cyfeirnod. Mae hwn ar unrhyw lythyrau am eu Pensiwn Rhyfel.

[ ]

**22** **Ydych chi'n credu bod eich diweddar bartner wedi marw oherwydd damwain yn y gwaith, neu oherwydd afiechyd neu salwch sy'n gysylltiedig â'u gwaith?**

Os bu farw eich diweddar bartner oherwydd damwain yn y gwaith, neu oherwydd afiechyd neu salwch yn gysylltiedig â'u gwaith, efallai y bydd gennych hawl i fudd-dal profedigaeth hyd yn oed os nad oeddent wedi talu digon o gyfraniadau YG. Gallwch ddarganfod pa afiechydon a salwch y gallwch wneud cais amdanynt yn **www.gov.uk/industrial-injuries-disablement-benefit/further-information** neu drwy ddefnyddio'r wybodaeth gyswllt a roddir yno i ffonio neu ysgrifennu am ragor o wybodaeth.

☐ Na

☐ Ydw

**23** **A oedd eich diweddar bartner erioed yn byw neu'n gweithio y tu allan i'r DU?**

Mae angen i ni wybod am unrhyw amser yr oedd eich diweddar bartner yn byw neu'n gweithio y tu allan i'r Deyrnas Unedig (DU). Mae hyn oherwydd os ydynt wedi talu i mewn i gynllun nawdd cymdeithasol mewn gwlad arall, fe allai gyfrif tuag at eich budd-daliadau profedigaeth. Y Deyrnas Unedig yw Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Dywedwch wrthym am unrhyw amser yr oeddent yn byw yn:

- gwlad y tu allan i'r DU
- Ynysoedd y Sianel, neu
- Gweriniaeth Iwerddon

Os mai dim ond yng Nghymru, Lloegr,yr Alban neu Ogledd Iwerddon maentwedi byw erioed, ticiwch **Na**.

☐ Na Ewch i **Gwestiwn 24**

☐ Oedd

Os **Oedd**, dywedwch wrthym am yr amser a dreuliwyd y tu allan i'r DU?

**Gwlad 1**

Ym mha wlad oeddent yn byw?

[ ]

Pryd oeddent yn byw yno?

O [ / / ]

I [ / / ]

Wnaethon nhw dalu i mewn i gynllun nawdd cymdeithasol y wlad roeddent yn byw ynddi?

☐ Na

☐ Do

☐ Ddim yn gwybod

Beth oedd eu rhif cyfeirnod nawdd cymdeithasol?

[ ]

☐ Ddim yn gwybod

**Gwlad 2**

Ym mha wlad oeddent yn byw?

[ ]

Pryd oeddent byw yno?

O [ / / ]

I [ / / ]

A wnaethon dalu i gynllun nawdd cymdeithasol y wlad roeddent yn byw ynddi?

☐ Na

☐ Oeddent

☐ Ddim yn gwybod

Beth oedd eu rhif cyfeirnod nawdd cymdeithasol?

[ ]

☐ Ddim yn gwybod

Os oeddent yn byw mewn mwy na 2 wlad, dywedwch wrthym am hyn yng **Nghwestiwn 36**.

**24 Oeddech chi'n disgwyl plentyn pan fu farw eich diweddar bartner?**

☐ Na

☐ Oeddwn

Pa ddyddiad y ganwyd y babi?

DD/MM/BBBB

[   /   /   ]

**25 A oedd gennych chi neu'ch diweddar bartner hawl i Fudd-dal Plant pan fu farw eich diweddar bartner?**

Os na chawsoch chi neu'ch diweddar bartner Fudd-dal Plant oherwydd eich bod yn perthyn i'r grŵp tâl Budd-dal Plant Incwm Uchel, ticiwch **Oedd** a rhowch fanylion eich plant dibynnol.

☐ Na

☐ Oedd

Rhowch fanylion y plant yn eich cartref pan fu farw eich diweddarb bartner.

**Plentyn 1af**

Cyfnew'r plentyn

[ ]

Enwau eraill y plentyn

[ ]

Dyddiad geni'r plentyn

DD/MM/BBBB

[   /   /   ]

Pa berthynas ydych chi i'r plentyn?

[ ]

Pa berthynas oedd eich diweddar bartner i'r plentyn?

[ ]

Os na chewch Fudd-dal Plant mwyach, dywedwch wrthym pryd y daeth i ben?

DD/MM/YYYY

[   /   /   ]

**2il Blentyn**

Cyfenw'r plentyn

[ ]

Enwau eraill y plentyn

[ ]

Dyddiad geni'r plentyn

DD/MM/YYYY

[   /   /   ]

Pa berthynas ydych chi i'r plentyn?

[ ]

Pa berthynas oedd eich diweddar bartner i'r plentyn?

[ ]

Os na chewch Fudd-dal Plant mwyach, dywedwch wrthym pryd y daeth i ben

DD/MM/BBBB

[   /   /   ]

**3ydd Plentyn**

Cyfenw'r plentyn

[ ]

Enwau eraill y plentyn

[ ]

Dyddiad geni'r plentyn
DD/MM/BBBB

/ /

Pa berthynas ydych chi i'r plentyn?

Pa berthynas oedd eich diweddar bartner i'r plentyn?

Os na chewch Fudd-dal Plant mwyach, dywedwch wrthym pryd y daeth i ben
DD/MM/BBBB

/ /

**4ydd Plentyn**

Cyfenw'r plentyn

Enwau eraill y plentyn

Dyddiad geni'r plentyn
DD/MM/BBBB

/ /

Pa berthynas ydych chi i'r plentyn?

Pa berthynas oedd eich diweddar bartner i'r plentyn?

Os na chewch Fudd-dal Plant mwyach, dywedwch wrthym pryd y daeth i ben
DD/MM/BBBB

/ /

**Os yw plentyn yn byw gyda pherson arall**

**26** **A oes unrhyw un o'r plant a restrir yng Nghwestiwn 25 erioed wedi byw mewn cyfeiriad gwahanol i chi ers i'ch partner farw?**

☐ Na Ewch i **Gwestiwn 29**

☐ Oes

**27** **A wnaethoch chi gynnal y plentyn/plant pan nad oeddent yn eich cartref?**

☐ Na

☐ Do

**Os yw plentyn mewn gofal**

**28** **A oes unrhyw blant wedi'u rhestru yng Nghwestiwn 25 erioed wedi bod mewn gofal ers i'ch diweddar bartner farw?**

☐ Na

☐ Oes

Beth yw enw'r plentyn.

Beth yw cyfeiriad yr awdurdod lleol?

Cod post

## Budd-daliadau eraill

**29** **Ydych chi erioed wedi cael budd-daliadau profedigaeth neu Lwfans Rhiant Gweddw o'r blaen?**

Ticich **Ydw** os gwnaethoch gais ond cawsoch eich gwrthod.

☐ Na

☐ Ydw

**30** **A gawsoch chi fudd-daliadau profedigaeth neu Lwfans Rhiant Gweddw?**

☐ Na

☐ Do

**31** **Ers 2018, ydych chi erioed wedi cael unrhyw un o'r budd-daliadau isod?**

- Lwfans Gofalwr
- Lwfans Ceisio Gwaith
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth
- Cymhorthdal Incwm
- Credyd Cynhwysol

☐ Na

☐ Do

Pa fudd-daliadau a gawsoch.

**Enw'r budd-dal**

**Enw'r budd-dal**

**Enw'r budd-dal**

**Enw'r budd-dal**

**32** **Ers i'ch diweddar bartner farw, ydych chi erioed wedi bod yn briod?**

☐ Na

☐ Ydw

Os Ydw, rhowch enw, dyddiad geni a rhif Yswiriant Gwladol y person.

Eu henw

Eu dyddiad geni
DD/MM/BBBB

/ /

Eu rhif Yswiriant Gwladol

Pryd oeddech yn briod?
DD/MM/BBBB

/ /

A yw'r briodas yn parhau?

☐ Na

Pa bryd y daeth i ben?
DD/MM/BBBB

/ /

☐ Ydy

**33** **Ers i'ch diweddar bartner farw, ydych chi wedi bod mewn partneriaeth sifil?**

☐ Na

☐ Ydw

Os **Ydw**, rhowch enw, dyddiad geni a rhif Yswiriant Gwladol y person.

Eu henw

Eu dyddiad geni
DD/MM/BBBB

[ / / ]

Eu rhif Yswiriant Gwladol

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|

Pryd aethoch chi i bartneriaeth sifil?
DD/MM/BBBB

[ / / ]

A yw'r bartneriaeth sifil yn parhau?

☐ Na

Pa bryd y daeth i ben?
DD/MM/BBBB

[ / / ]

☐ Ydy

**34** **Ers i'ch diweddar bartner farw, ydych chi erioed wedi byw gyda rhywun fel petaech yn briod â nhw?**

☐ Na

☐ Ydw

Os **Ydw**, rhowch enw, dyddiad geni a rhif Yswiriant Gwladol y person.

Eu henw

[ ]

Eu dyddiad geni
DD/MM/BBBB

[ / / ]

Eu rhif Yswiriant Gwladol

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|

Pryd gwnaethoch fyw â rhywun fel petaech yn briod â nhw?

[ / / ]

A yw'r berthynas yn parhau?

☐ Na

Pa bryd y daeth i ben?
DD/MM/BBBB

[ / / ]

☐ Ydy

**35** **Os ydych wedi ateb Ydw i Gwestiynau 32,33, neu 34, ydych chi wedi cael unrhyw blant eraill ers i'ch diweddar bartner farw?**

☐ Na

☐ Ydw

Eu henw

[ ]

Eu dyddiad geni
DD/MM/BBBB

[ / / ]

Eu henw

[ ]

Eu dyddiad geni
DD/MM/BBBB

[ / / ]

## Rhagor o wybodaeth

**36** **Defnyddiwch y gwagle hwn i roi gwybod i ni am unrhyw beth arall y credwch y gallai fod angen i ni ei wybod.**

Os nad oes digon o le, defnyddiwch ddalen o bapur ar wahân. Gwnewch yn siŵr eich bod yn rhoi eich enw llawn a'ch rhif Yswiriant Gwladol (YG) ar bob tudalen o bapur, a llofnodwch a rhowch ddyddiad ar bob dalen a ddefnyddiwch.

## Sut rydym yn eich talu

Gallwch ddewis pa mor aml rydych am i ni dalu eich budd-dal.

**37 Pa mor aml ydych chi am i ni dalu eich budd-dal?**

Gallwch ddewis pa mor aml rydych am i ni dalu eich budd-dal.

- ☐ Bob 2 wythnos
- ☐ Bob 4 wythnos
- ☐ Bob 13 wythnos

**Fel arfer byddwn yn talu eich arian i gyfrif.**

Byddwn yn dweud wrthych pryd y byddwn yn gwneud y taliad cyntaf ac am faint y bydd. Byddwn yn dweud wrthych os bydd y swm a dalwn i'r cyfrif yn newid.

### Os byddwn yn talu gormod o arian i chi

Mae angen i ni sicrhau eich bod yn cael y swm cywir o Lwfans Rhiant Gweddw. Mae'r swm a gewch yn seiliedig ar y wybodaeth a ddarparwyd gennych. Mae gennych gyfrifoldeb i sicrhau bod yr holl wybodaeth a roddwch i ni yn gywir, yn gyflawn ac yn gyfredol.

Os nad yw'r wybodaeth a roddwch yn gywir, efallai y bydd eich taliadau'n anghywir. Os na fyddwn yn talu digon i chi, efallai y bydd arnom ychydig o arian i chi. Os byddwn yn talu gormod i chi, efallai y bydd yn rhaid i chi dalu'r arian hwnnw'n ôl. Rydych hefyd mewn perygl o gael eich erlyn neu orfod talu cosb ariannol.

**Byddwn yn cysylltu â chi cyn i ni gymryd unrhyw arian yn ôl.**

## Beth i'w wneud nawr

Rhowch wybod i ni am y cyfrif rydych am ei ddefnyddio. Trwy roi manylion eich cyfrif i ni rydych yn:

- cytuno y byddwn yn eich talu i gyfrif, a
- deall yr hyn yr ydym wedi'i ddweud wrthych uchod yn yr adran **Os byddwn yn talu gormod o arian i chi.**

Cwblhewch weddill y ffurflen hon.

## Y cyfrif rydych am ei ddefnyddio

Gallwch ddefnyddio cyfrif yn eich enw chi, neu gyfrif ar y cyd.

Gallwch ddefnyddio cyfrif rhywun arall os:
- bydd telerau ac amodau eu cyfrif yn caniatáu hyn, a
- maent yn cytuno i chi ddefnyddio eu cyfrif, a
- rydych yn siŵr y byddant yn defnyddio'ch arian yn y ffordd y byddwch yn dweud wrthynt.

Gallwch ddefnyddio cyfrif undeb credyd. Rhaid i chi roi manylion cyfrif yr undeb credyd i ni. Bydd eich undeb credyd yn gallu eich helpu gyda hyn.

Os ydych yn benodai neu'n gynrychiolydd cyfreithiol yn gweithredu ar ran yr hawlydd, dylai'r cyfrif fod yn eich enw chi yn unig.

**Dywedwch wrthym fanylion eich cyfrif.**

**Mae'n bwysig iawn eich bod yn cwblhau pob blwch yn gywir, gan gynnwys rhif rôl neu gyfeirnod y gymdeithas adeiladu, os oes gennych un. Os byddwch yn rhoi'r manylion cyfrif anghywir i ni efallai y bydd oedi gyda'ch taliad neu gallech golli arian.**

**38 Enw deiliad y cyfrif**

Dylai hyn fod yn union fel y dangosir ar eich cerdyn debyd neu gyfriflen.

**39 Enw'r banc neu gymdeithas adeiladu**

**40 Cod didoli**

Rhowch wybod pob un o'r 6 rhif, er enghraifft: 12-34-56.

**41 Rhif cyfrif**

Mae'r rhan fwyaf o rifau cyfrif yn 8 rhif o hyd. Os oes gan rif eich cyfrif lai na 10 rhif, llenwch y rhifau o'r chwith.

**42 Rhif rôl neu gyfeirnod cymdeithas adeiladu**

Os ydych yn defnyddio cyfrif cymdeithas adeiladu efallai y bydd angen i chi roi rhif rôl neu gyfeirnod i ni. Gall hyn gynnwys llythrennau a rhifau, a gall fod hyd at 18 nod. Os nad ydych yn siŵr a oes gan y cyfrif rif rôl neu gyfeirnod, gofynnwch i'r gymdeithas adeiladu.

## Datganiad

**Rwyf yn datgan** fy mod yn bartner sy’n goroesi i’r person a enwir ar **Dudalen 3** y ffurflen hon.

**Rwyf yn deall** os byddaf yn rhoi gwybodaeth ffug neu anghyflawn neu’n methu â rhoi gwybod am bob newid yn fy amgylchiadau a allai effeithio ar fy hawl yn brydlon, efallai y byddaf yn agored i gael fy erlyn neu wynebu cosb ariannol.

**Rwyf yn datgan** fy mod wedi darllen a deall y nodiadau a ddaeth gyda’r ffurflen hon a bod yn rhaid i mi ffonio neu ysgrifennu at y swyddfa sy’n talu fy mudd-dal i roi gwybod am unrhyw newid yn fy amgylchiadau.

**Rwyf yn datgan** bod y wybodaeth yn fy nghais yn gyflawn ac yn gywir.

**Llofnod**

**Dyddiad**
DD/MM/BBBB

/ /

## Beth i’w wneud nawr

Darllenwch y ffurflen hon eto a sicrhewch eich bod wedi ateb yr holl gwestiynau sy’n berthnasol i chi a’ch partner:
- sicrhewch eich bod wedi llofnodi’r ffurflen hon
- anfonwch eich ffurflen gais atom cyn gynted â phosibl.

Dychwelwch y ffurflen gais i:
Dover Benefit Centre
Post Handling Site B
Wolverhampton
WV99 1LA.

Gallwch gysylltu â swyddfa Budd-daliadau Profedigaeth Dover ar **0800 151 2012**. Os oes gennych anawsterau ar eich lleferydd neu glyw, gallwch gysylltu â nhw drwy ddefnyddio ffôn testun ar **0800 169 0314**.

Mae galwadau i rifau 0800 am ddim o linellau daear neu ffonau symudol.

## Beth sy’n digwydd nesaf

Os, fel partner sy’n goroesi, mae gennych hawl i Lwfans Rhiant Gweddw, byddwn yn gwneud taliad i’ch cyfrif cyn gynted ag y gallwn.

Os nad oes gennych hawl i’r budd-dal hwn, byddwn yn ysgrifennu atoch i ddweud pam.

## Sut mae DWP yn casglu ac yn defnyddio gwybodaeth

Pan fyddwn yn casglu gwybodaeth amdanoch, efallai y byddwn yn ei defnyddio at unrhyw un o’n dibenion.
Mae’r rhain yn cynnwys:
- budd-daliadau a lwfansau nawdd cymdeithasol
- cynhaliaeth plant
- cyflogaeth a hyfforddiant
- ymchwilio ac erlyn troseddau credydau treth
- polisi pensiynau preifat, a
- cynllunio ar gyfer ymddeoliad.

Efallai y byddwn yn cael gwybodaeth amdanoch gan bartïon eraill at unrhyw un o’n dibenion fel mae’r gyfraith yn caniatáu i wirio’r wybodaeth a ddarperir gennych a gwella ein gwasanaethau. Gallwn roi gwybodaeth amdanoch i sefydliadau eraill fel y mae’r gyfraith yn caniatáu, er enghraifft i amddiffyn rhag trosedd.

I gael mwy o wybodaeth am ein dibenion, sut rydym yn defnyddio gwybodaeth bersonol at y dibenion hynny, a’ch hawliau gwybodaeth, gan gynnwys sut i ofyn am gopi o’ch gwybodaeth, ewch i **www.gov.uk/dwp/siarter-gwybodaeth-bersonol**